**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**

**ADRAN DIOGELWCH TÂN I FUSNESAU**

**TECHNEGYDD DYLUNIO DRWY GYMORTH CYFRIFIADUR**

**GRADD 7**

**RHIF CYF: 502240**

**CYFLOG £21,268 - £22,658 y flwyddyn (Contract Dros Dro 2 flwyddyn)**

Cododd y swydd wag **dros dro am 2 flwyddyn** uchod o fewn yr Adran Diogelwch Tân i Fusnesau a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân yn Llantrisant.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio o fewn y Tîm Dylunio Drwy Gymorth Cyfrifiadur (DDGC). Y brif rôl fydd sganio a throsi lluniadau o amryfal fformatau, ynghyd ag uwch lwytho cynlluniau busnes i gronfeydd data Gweithredol a Diogelwch Tân i Fusnesau, i'w defnyddio ar ein system ddata symudol. Yn ychwanegol, byddwch yn digideiddio, diwygio ac ailgynhyrchu cynlluniau adeiladu a dogfennau eraill drwy ddefnydd y System Ddylunio Drwy Gymorth Cyfrifiadur yn ôl cyfarwyddyd.

Mae'n ddymunol bod gan yr ymgeisydd llwyddiannus allu i ddarllen a deall graddfeydd darlunio. Efallai bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus ymgymryd â hyfforddiant perthnasol.

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio 37 awr yr wythnos. Gweithredir Cynllun Oriau Gwaith Hyblyg.

Ymgeiswyr y System Ddyletswydd Rhan Amser: A fyddwch cystal â chymryd oriau eich argaeledd i ystyriaeth wrth ymgeisio ar gyfer y swydd wag hon a thrafodwch unrhyw gwestiynau ynglŷn ag argaeledd â'ch Rheolwr Gorsaf System Ddyletswydd Rhan Amser.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Manyleb Person a Swydd-Ddisgrifiad o'n Gwefan www.decymru-tan.gov.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **12:00 yp, Dydd Gwener 18fed o Fai 2018.**

Dylid dychwelyd Ffurflenni Cais gorffenedig at:- Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX.

Pe bai gennych unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r swydd hon, cysylltwch â Dave Prosser, Rheolwr DDGC (Diogelwch Tân i Fusnesau) ar dj-prosser@decymru-tan.gov.uk mailto:DJ-Prosser@southwales-fire.gov.uk neu ffoniwch Dave ar 01443 232550. Gall y rôl hon gynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

**Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith neu'r llall.**

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.**